Annwyl Gyfaill,

Cyflwyna Dyfodol i'r Iaith gystadleuaeth Gwobr Goffa Leah, gwobr er cof am Leah Owen a'i chyfraniad aruthrol at ddiwylliant Cymru.

Bu Leah'n weithredol dros y Gymraeg o ddyddiau cynnar ei hymgyrchu a'i chanu trwy flynyddoedd y cyfansoddi a hyfforddi ei chorau a channoedd o bobl ifanc.

Mae'r ddwy gystadleuaeth, sef creu fideo ar destun penodol, yn agored i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Bl10-11 ac i rai Bl12-13 a myfyrwyr Colegau Addysg Bellach (hyd at 19 oed).

Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi rannu'r wybodaeth gyda disgyblion neu fyfyrwyr sydd yn debygol o fod â diddordeb mewn cystadlu.

Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch gwaith parhaol dros y Gymraeg,

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| Dylan Bryn Roberts | Heini Gruffudd |
| *Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith* | *Cadeirydd* |

Llais i'r Iaith

Gobeithiwn y bydd enillwyr y gystadleuaeth yn cael sylw cenedlaethol ar S4C a Radio Cymru a byddwn yn uwch lwytho'r fideos llwyddiannus i wefan a sianel *You Tube* Dyfodol i'r Iaith.: **www.dyfodol.net**

Y Beirniaid yw: Eifion Lloyd Jones, Elaine Edwards a'r Dr Huw Griffiths, aelodau bwrdd Dyfodol i'r Iaith.

*Ymwadiad: Ni all Dyfodol i'r Iaith dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw fethiant technegol wrth anfon neu dderbyn fideos.*

# Y Cystadlaethau

## 1. Disgyblion ysgol uwchradd Bl10-11 (TGAU)

Gofynnir i ymgeiswyr greu sgwrs neu gyflwyniad fideo **rhwng 3 a 5 munud o hyd** yn ymdrin â'r testun canlynol:

**"Ble ydw i'n defnyddio'r Gymraeg, a ble arall hoffwn allu defnyddio'r Gymraeg?"**

Gellir sôn am bethau sy'n rhoi cymorth a phethau sy'n gosod rhwystr. Gellir creu sgwrs neu gyflwyniad fideo fel unigolyn, mewn pâr neu mewn grŵp o hyd at 3 unigolyn. Gall fod ar ffurf araith, cyfweliad, trafodaeth, podlediad, ayyb.

Sylwer mai cyflwyno profiad a syniadau am ddefnyddio'r Gymraeg sydd bwysicaf i'r gystadleuaeth, nid safon technegol y fideos.

Gwobrau ariannol:

1af: £100; 2il: £60; 3ydd: £40

Dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth: **1af Chwefror 2026**

Dylid anfon dolen gyswllt o'r fideo ynghyd â chopi o ffurflen gais trwy'r ysgol (nid y disgybl/myfyriwr unigol) at yr e-bost canlynol:

**cystadleuaeth@dyfodol.net**

## 2. Disgyblion ysgol uwchradd Bl12-13 (Safon uwch) a myfyrwyr Coleg Addysg Bellach (hyd at 19 oed)

Gofynnir i ymgeiswyr greu sgwrs neu gyflwyniad fideo **rhwng 5 ac 8 munud o hyd** yn ymdrin â'r testun canlynol:

**"Beth ydi'r cyfleoedd a'r rhwystrau i mi ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol neu Goleg ac yn fy mywyd yn gyffredinol. Sut y gellir gwella'r cyfleoedd hynny?"**

Gellir sôn am bethau sy'n rhoi cymorth a phethau sy'n gosod rhwystr. Gellir creu sgwrs neu gyflwyniad fideo fel unigolyn, mewn pâr neu mewn grŵp o hyd at 3 unigolyn; gall fod ar ffurf araith, cyfweliad, trafodaeth, podlediad ayyb.

Sylwer mai cyflwyno profiad a syniadau am ddefnyddio'r Gymraeg sydd bwysicaf i'r gystadleuaeth, nid safon technegol y fideos.

Gwobrau ariannol:

1af: £100; 2il: £60; 3ydd: £40

Dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth: **1af Chwefror 2026**

Dylid anfon dolen gyswllt o'r fideo ynghyd â chopi o ffurflen gais trwy'r ysgol (nid y disgybl/myfyriwr unigol) at yr e-bost canlynol:

**cystadleuaeth@dyfodol.net**

# FFURFLEN CANIATÂD

## CYSTADLEUAETH GWOBR GOFFA LEAH OWEN

Cyflwyna ***Dyfodol i'r Iaith*** gystadleuaeth Gwobr Goffa Leah er cof am Leah Owen a'i chyfraniad aruthrol at ddiwylliant Cymru. Mae'r gystadleuaeth, sef creu fideo ar destun penodol, yn agored i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Bl10-11 ac i rai Bl12-13 a myfyrwyr mewn Colegau Addysg Bellach (hyd at 19 oed).

### Rhan A – Manylion y cystadleuydd

Enw: ______________________________________________

Oedran: _______ Blwyddyn ysgol/coleg: ______

Ysgol/Coleg: ______________________

Cyfeiriad e-bost yr Ysgol/Coleg: ______________________________

Rwy'n cystadlu: fel unigolyn ❑ neu: fel aelod o grŵp ❑

### Rhan B – Caniatâd i gymryd rhan ac i ddefnyddio'r fideo

❑ Rwy'n cytuno i gymryd rhan yng nghystadleuaeth fideo ***Dyfodol i'r Iaith***.

❑ Rwy'n cadarnhau mai fi/ni sydd wedi creu'r fideo ac nad yw'n cynnwys cerddoriaeth, lluniau na deunydd arall sy'n torri hawlfraint.

❑ Rwy'n rhoi caniatâd i ***Dyfodol i'r Iaith*** ddefnyddio /cyhoeddi /dyfynnu o'r fideo

— yn nigwyddiadau'r mudiad;
— ar wefan y mudiad;
— ar gyfer hyrwyddo'r mudiad;
— yng nghyhoeddiadau ***Dyfodol i'r Iaith***.

Rwy'n deall y gallaf dynnu'n ôl fy nghaniatâd unrhyw bryd drwy gysylltu â: cystadleuaeth@dyfodol.net

### Rhan C – Caniatâd rhiant/gwarcheidwad (os dan 16 oed)

Fel rhiant/gwarcheidwad rwy'n rhoi caniatâd i ..................................................[enw] gystadlu ac i ddefnydd ***Dyfodol i'r Iaith*** o'r fideo a gyflwynir.

Enw'r rhiant/gwarcheidwad: ______________________

Llofnod: ___________________________ Dyddiad:________________

### Rhan CH – Diogelu a phreifatrwydd

Cedwir y ffurflen hon yn ddiogel gan ***Dyfodol i'r Iaith*** ac ni chaiff ei rhannu â thrydydd partïon. Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol (fel cyfeiriad cartref neu rif ffôn) ei rhannu'n gyhoeddus. Cedwir y ffurflen tan ddiwedd y gystadleuaeth ac am hyd at flwyddyn ar ôl hynny, cyn ei dileu'n ddiogel. Mae'r defnydd hwn yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU.

Llofnod y cystadleuydd: ______________________ Dyddiad: ________

# CONSENT FORM

## LEAH OWEN MEMORIAL PRIZE COMPETITION

***Dyfodol i'r Iaith*** presents the Leah Memorial Prize competition in memory of Leah Owen and her immense contribution to Welsh culture. The competition, to create a video on a specific topic, is open to Secondary School pupils in Yrs10-11 and Yrs12-13 and students in Further Education Colleges (up to 19 years old).

### Part A – Details of the competitor

Name: ____________________________________________

Age: _____ School/college year: ________

School/College: _____________________

School/College email address: _____________________________

I'm competing as: an individual ❑ or: group member ❑

### Part B – Permission to participate and use the video

❑ I agree to take part in the ***Dyfodol i'r Iaith*** video competition.

❑ I confirm that I/we have created the video and it does not contain music, photos or other material that infringes copyright.

❑ I give permission to ***Dyfodol i'r Iaith*** to use / publish / quote from the video

— at the organisation's events;
— on the organisation's website and social media;
— for the future promotion of the competition;
— in ***Dyfodol i'r Iaith*** publications.

❑ I understand that I can withdraw my permission at any time by contacting: cystadleuaeth@dyfodol.net

### Part C – Parent/guardian's consent (if under 16)

As parent/guardian I give ............................................. [name] permission to compete and to the use, by ***Dyfodol i'r Iaith,*** of the video submitted.

Name of parent/guardian: __________________________

Signature: ___________________________________ Date: __________________

### Part D – Protection and privacy

This form is kept secure by ***Dyfodol i'r Iaith*** and will not be shared with third parties. No personal information (such as home address or phone number) will be shared publicly. The form will be kept until the end of the competition and for up to one year thereafter, before being securely deleted. This use complies with the Data Protection Act 2018 and the UK GDPR.

Contestant's signature: _____________________Date: ________